

**Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group
Grŵp Cydgysylltu Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair
6pm, Thursday 30th November 2017
6yh, Nos Iau, 30 Tachwedd 2017
Pontarddulais Institute**

AGENDA

1. Welcome & introductions / Croeso a chyflwyniadau
2. Apologies / Ymddiheuriadau
3. Minutes of previous meeting & matters arising / Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi
4. Correspondence
5. Update / Diweddariad - Tim James, innogy
6. Update / Diweddariad – Jenny Cowley, innogy
7. AOB / UFA
8. Next meeting / Cyfarfod nesaf

30th November 2017

The eleventh meeting of the Mynydd y Gwair Wind Farm Community Liaison Group
Institute, Pontarddulais



Attendees

Emma North, Planning, City and County of Swansea

David Owen, Planning, City and County of Swansea

Alun Thomas, Highways, City and County of Swansea

Kevin Griffith, Pontarddulais Town Council

Neil Chambers, Contracts Manager, Dawnus Construction Ltd

Cllr Robert Jones, Mawr Community Council

Paul Newman, Pontlliw and Tircoed Community Council

Jennifer Turner, Public Liaison Officer, Farrans

Philip McDonnell, Chair

Tim James, Construction Project Manager, Innogy Renewables UK Ltd

Jenny Cowley, Community Liaison Manager, Innogy Renewables UK Ltd. Angharad Davies, Cadno Communications Ltd

1. Welcome and introductions

The chair welcomed the group and asked everyone to introduce themselves to Jennifer Turner who will be attending CLG meeting henceforth, to represent Farrans, the civils work contractor.

2. Apologies

Paul Northcote, Mawr CC; Brigitte Rowlands, WGCA; Sgt. Philip Morris, PCSO Matthew Collins, SWP.

3. Minutes & matters arising

3.1 The Chair asked about what progress had been made with regard to Jane Harris's offer to accompany JC to meet the local resident who raises multiple concerns (action 5.22). The matter is in hand and a date for a meeting is being set.

3.2 The WGCA have agreed to erect fencing near the cattle grid, but have yet to do so (action 6.6).

3.3 The minutes were accepted as a true record of the previous meeting.

4. Correspondence

4.1 Kevin Griffiths had forwarded an e-mail with a number of queries raised with him by a local resident, and asked that these be discussed.

4.2 The resident has asked that a separate website is set up to host the CLG meeting minutes, and agendas. The Chair noted that these are already publicly available on the Innogy website and that members of the CLG can also make them available on their community council or organisational websites.

4.3 TJ explained that Innogy would not fund a separate website. All project information is held on the Mynydd y Gwair section of the Innogy website and updated regularly.

4.4 The Mawr CC representative said that he would be happy for the minutes to be published on the Mawr CC website.

4.5 The resident stated in his correspondence that the minutes were a 'sanitised' version of the meetings. CLG members felt that this was unfair as they amend and agree the minutes at each meeting. It was proposed that all minutes be formally proposed, seconded and agreed. To that end, the October minutes were formally proposed by RJ and seconded by KG.

4.6 In his correspondence, the resident had queried why the CLG meetings were not open to the public. TJ said that the Local Liaison Group was run in accordance with the Condition Discharge Document submitted as part of the Planning Condition 38. All communities affected by the construction were represented by a nominated member of the community council. There didn't appear to be a demand for public meetings, and it was felt that the CLG should continue in its current format, with elected representatives from the community and nominated representatives from relevant organisations.

4.7 Clause 7.2 of the Terms of Reference (agreed at the first meeting) state that CLG meetings are working meetings for the exchange of information, and as such they will not be open to the public. (AP: Send a copy of the ToRs to KG. AD).

4.8 Members of the public have numerous ways to contact Innogy with queries and concerns, both by phone and e-mail, in addition to the information on the website.

4.9 The resident had also questioned how democratic the CLG is. It was noted that the communities are represented by democratically elected councillors.

4.10 In his correspondence, the resident had queried whether the contractor was being wasteful with tarmac. TJ said that in two locations, tarmac had been laid and then planed off due to defects.

4.11 The correspondent believed that hazardous waste was being dumped or recycled, and referred to a lack of a paper trail for dealing with this waste.

4.12 NC of Dawnus explained that no hazardous material had been dumped or recycled. All material (rock) taken from the site entrance had been crushed in machinery near to the site, and re-used within the scheme. The re-use of such material had saved 2000 lorry movements to and from site – which equates to the amount of aggregate (2,200 cubic metres) that would have had to be transported onto site, had the rock not been crushed and re-used.

4.13 The necessary permission had been received for siting and operating the crusher.

4.14 There is a protocol under which movements of materials is managed. This is governed by Natural Resources Wales (NRW). The paperwork for dealing with tarmac and recycling the rock, is all in order, and the work has been inspected and signed off by NRW.

4.15 NRW favours re-use and recycling of material wherever possible. Eight-thousand cubic metres of topsoil that was removed as part of the wind farm project has been re-used as landscaping by Dawnus on the neighbouring flood alleviation scheme.

4.16 DO said that the local authority was very supportive of this approach because of the resulting reduction in lorry deliveries.

4.17 The Chair reminded CLG members that Dawnus has a reputation for good practice in the management of materials, and that because recycling rules and targets are so strict, it is in the interests of the developer and contractor to re-use material as much as possible.

4.18 Innogy will respond formally to the points in the resident's correspondence and send this to KG.

5. Update from Tim James

5.1 The enabling works were completed in November and Dawnus is demobilising from site. TJ thanked Dawnus for their contribution to the project and thanked NC for attending all CLG meetings.

5.2 A trial-run had taken place to 'prove' the access route, with a simulated load, from Bolgoed Road to the wind farm site entrance. This went very well, and all involved, Senvion, South Wales Police, and the haulier, were pleased and satisfied with the route.

5.3 SWP had used the trial-run as a means of assessing the likely escorting requirements and convoy make-up that will be required.

5.4 Farrans, the civils contractor, has started mobilising onto site.

5.5 Fencing has begun and a local fencing contractor is being used to deliver the work. The fencing contractor is local and holds rights on the common.

5.6 Jenny Turner from Farrans was formally welcomed.

5.7 In the next few weeks, Farrans will be: Completing the fencing; bringing plant to site; constructing the trackside swales as part of the SUDS scheme (Sustainable Urban Drainage System); beginning the access track.

5.8 Stone deliveries will begin shortly. The stone will be sourced locally.

5.9 The intention is to lay up to 85 metres of track every day, requiring up to 1,000 tonnes of stone to be delivered to site daily, which equates to approximately 50 lorry movements, in each direction. This is a maximum, and lorry movements will be spread over the entire working day. The work is likely to last for a period of approximately 5 months, and work is carried out from Mondays to Fridays 7.30am-7pm; 7am-2 pm on a Saturday. Sundays and Bank Holidays are non-working days and there is a two-week shutdown over the Christmas period. The lorries will follow the prescribed traffic route i.e. travel through Penllergaer and Pontlliw.

5.10 Initially a wheel-washing facility – a bowser and pressure washer - will be placed at the site entrance (Blean Gerdinen), in accordance with the Construction Management Statement (CMS). Once the first section of track is constructed, a dry-cleaning facility will be installed. The CMS requires a dry-cleaning facility, due to the sensitive local environment.

5.11 The stone will be locally sourced and the lorries will be owner-drivers, and therefore, mostly local. It is acknowledged that Farrans will need to be very vigilant and ensure that lorries do not travel through Pontarddulais.

5.12 TJ reported that vehicles were using the track between Heol y Barna and Bolgoed Road. This is not a public road. Gates have now been installed and Farrans will shortly employ a gateman to manage this. Signage indicating that the track is private property is also being erected. TJ requested that the community representatives remind their communities that the track between Bolgoed Road and Heol y Barna is not for public use.

5.13 TJ wished to make it clear that large quantities of aluminium track-way being stored in the layby near to the Bolgoed Road site entrance, were not connected with Innogy's works, as some had wrongly thought. It is connected with works to an O2 mast near to Pontarddulais.

5.14 There is a rumour that a car got stuck in the tarmac being laid near to Five Roads. Neither the contractor nor Innogy had received any reports of this, and areas where tarmac is being laid are working areas, where cars are prohibited from accessing.

5.15 The entire abnormal load route, from Swansea Port to the wind farm site, will be trialled next year. It is difficult to give a long period of prior notice for the trial run, because Innogy is at the mercy of SWP slots. Innogy can give 72 hours' notice. During the trial run from Bolgoed Road to the site, the resultant traffic delay was monitored. It was observed that traffic cleared very quickly. The abnormal loads will be limited to travelling outside of peak times. For the abnormal loads, the splitter island in Penllergaer will need to be removed – this is the only change to the highway that needs to take place and the island will be restored after the deliveries to site are completed.

5.16 CLG members asked for as much information as possible prior to the arrival of abnormal loads. JC said that lessons had been learned from other Innogy projects and from the initial short trial-run and that the abnormal load movements would be discussed with the CLG beforehand. It isn't possible to give an exact time for the deliveries, but an indication can be given. A text message service could be put in place for those wishing to know when the abnormal loads are due to be transported.

6. Update from Jenny Cowley

6.1 JC referred to the lengthy correspondence discussed at the last meeting from a local resident. The local resident has been in touch again.

6.2 Innogy has received a query via twitter about the wheel washing facility.

6.3 The local authority planning department (DO and EN) have also received correspondence relating to the S106 issues, also raised at the last meeting, and discussed at length. TJ explained once again that calculating the economic impact within a 100km radius is a standard measurement used by Farrans and others to quantify the benefits of local investment arising from the work. DO emphasised that the definitions of 'local' in the S106 agreement referred to Wales, and Welsh products and services. (AP: DO agreed to send a copy of the S106 to KG).

7. AOB

7.1 The vibrations assessment is not yet complete. Two properties have raised their concerns with Innogy. Monitoring will remain in place for the first few weeks of the stone deliveries. Thus far, the vibration monitoring has not revealed anything of concern, with the peak vibration values substantially less than what could cause cosmetic damage. Innogy has been to meet with the residents in both properties and will formally report back to them on the completion of the monitoring. Innogy owns the property closest to the site entrance, and monitors the impact of vibration on this property. Dawnus has monitored the vibration and Innogy has commissioned a second independent vibration monitor.

7.2 The Chair informed members that he had been appointed to carry out a consultation on the community benefit funding with the Mawr community. When the original consultation was conducted in 2012, open public consultation events did not take place within Mawr, and so this consultation is being done to ensure Mawr can input into the process in the same way as other community councils have done. Mawr CC had endorsed the appointment of Philip McDonnell to do this work.

8. Next meeting:

The next meeting will be held at 6 pm on Thursday 18th January at Canolfan y Bont, Pontarddulais.

The meeting concluded at 7.10 pm.

30 Tachwedd 2017

Unfed cyfarfod ar ddeg Grŵp Cydgysylltu Cymunedol Fferm Wynt Mynydd y Gwair Stiwt Pontarddulais



Yn bresennol

Emma North, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
David Owen, Cynllunio, Dinas a Sir Abertawe
Alun Thomas, Priffyrdd, Dinas a Sir Abertawe
Kevin Griffith, Cyngor Tref Pontarddulais
Neil Chambers, Rheolwr Contractau, Dawnus Construction Cyf
Y Cynghorydd Robert Jones, Cyngor Cymuned Mawr
Paul Newman, Cyngor Cymuned Pontlliw a Thircoed
Jennifer Turner, Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd, Farrans
Philip McDonnell, Cadeirydd
Tim James, Rheolwr Prosiect Adeiladu, Innogy Renewables UK Cyf
Jenny Cowley, Swyddog Cyswllt a'r Gymuned, Innogy Renewables UK Cyf.
Angharad Davies, Cadno Communications Cyf.

1. Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd y cadeirydd y grŵp a gofyn i bawb gyflwyno'i hun i Jennifer Turner a fydd yn dod i gyfarfodydd y Grŵp o hyn allan, i gynrychioli Farrans, y contractwr gwaith sifil.

2.

Ymddiheuriadau

Paul Northcote, CC Mawr; Brigitte Rowlands, WGCA; y Rhingyll Philip Morris, SCCH; Matthew Collins, HDC.

3. Cofnodion a materion yn codi

- 3.1 Gofynnodd y cadeirydd beth oedd wedi digwydd ynghylch cynnig Jane Harris i fynd gyda JC i gwrdd â'r preswylwr lleol a oedd wedi codi nifer o bryderon (pwynt gweithredu 5.22). Mae'r mater yn cael sylw ac mae dyddiad yn cael ei bennu ar hyn o bryd ar gyfer y cyfarfod.
- 3.2 Mae'r WGCA wedi cytuno i godi ffens newydd ger y grid gwartheg, ond nid yw wedi gwneud hynny eto (pwynt gweithredu 6.6).
- 3.3 Derbyniwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod diwethaf.

4. Gohebiaeth

- 4.1 Roedd Kevin Griffiths wedi anfon ebost ymlaen a oedd yn cynnwys nifer o gwestiynau a godwyd gydag ef gan un o'r preswylwr lleol, a gofynnodd am drafodaeth ar y rhain.
- 4.2 Mae'r preswylwr wedi gofyn am gael gwefan ar wahân i gynnwys cofnodion ac agendâu cyfarfodydd y Grŵp Cydgysylltu. Nododd y Cadeirydd fod y rhain eisoes ar gael i'r cyhoedd ar wefan Innogy ac y gall aelodau'r Grŵp hefyd eu cyhoeddi ar wefan eu cyngor cymuned neu sefydliad.
- 4.3 Eglurodd TJ na fyddai Innogy yn ariannu gwefan ar wahân. Mae'r holl wybodaeth am y prosiect ar gael ar adran Mynydd y Gwair ar wefan Innogy ac yn cael ei diweddarau'n rheolaidd.
- 4.4 Dywedodd cynrychiolydd CC Mawr y byddai'n hapus i'r cofnodion gael eu cyhoeddi ar wefan CC Mawr.
- 4.5 Dywedodd y preswylwr yn ei ohebiaeth fod y cofnodion yn fersiwn 'wedi'i chymoni' o'r cyfarfodydd. Roedd aelodau'r Grŵp o'r farn fod hynny'n annheg gan eu bod yn diwygio'r cofnodion ac yn cytuno arnynt ym mhob cyfarfod. Cynigiwyd y dylid cynnig, eilio a chytuno'n ffurfiol ar yr holl gofnodion. I'r perwyl hwnnw, cynigiwyd cofnodion mis Hydref yn ffurfiol gan RJ a'u heilio gan KG.
- 4.6 Yn ei ohebiaeth, roedd y preswylwr yn gofyn pam nad oedd cyfarfodydd y Grŵp yn agored i'r cyhoedd. Dywedodd TJ fod y Grŵp Cydgysylltu Lleol yn cael ei gynnal yn unol â'r Ddogfen Cyflawni Amodau a gyflwynwyd yn rhan o Amod Cynllunio 38. Roedd pob un o'r cymunedau yr oedd y gwaith adeiladu'n effeithio arnynt yn cael eu cynrychioli gan aelod enwebedig o'r cyngor cymuned. Nid oedd yn ymddangos bod galw am gyfarfodydd cyhoeddus, a theimlid y dylai'r Grŵp barhau fel ag y mae, gyda chynrychiolwyr etholedig o'r gymuned a chynrychiolwyr enwebedig o sefydliadau perthnasol.

- 4.7 Mae cymal 7.2 y Cylch Gorchwyl (y cytunwyd arno yn y cyfarfod cyntaf) yn nodi mai cyfarfodydd gwaith er mwyn cyfnewid gwybodaeth yw cyfarfodydd y Grŵp Cydgysylltu, ac o'r herwydd na fyddant yn agored i'r cyhoedd. (PG: Anfon copi o'r Cylch Gorchwyl i KG. AD).
- 4.8 Mae sawl ffordd y gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu ag Innogy i godi cwestiynau neu bryderon, dros y ffôn ac ebost, ac mae gwybodaeth ar gael ar y wefan hefyd.
- 4.9 Roedd y preswylwr hefyd wedi holi pa mor ddemocrataidd yw'r Grŵp. Nodwyd bod y cymunedau'n cael eu cynrychioli gan gynghorwyr sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd.
- 4.10 Yn ei ohebiaeth, cododd y preswylwr gwestiynau ynghylch a oedd y contractwr yn gwastraffu tarmac. Dywedodd TJ fod tarmac wedi'i osod ac yna wedi'i blaenio i ffwrdd oherwydd diffygion mewn dau fan.
- 4.11 Roedd y preswylwr o'r farn fod gwastraff peryglus yn cael ei ollwng neu ei ailgylchu, a chyfeiriodd at ddiffyg trywydd papur ar gyfer ymdrin â'r gwastraff hwn.
- 4.12 Eglurodd NC o Dawnus nad oedd dim gwastraff peryglus wedi'i ollwng na'i ailgylchu. Roedd yr holl ddeunydd (creigiau) yr aethpwyd ag ef o fynedfa'r safle wedi'i falu mewn peiriannau ger y safle, a'i aildddefnyddio yn y cynllun. Roedd aildddefnyddio deunyddiau o'r fath wedi arbed 2000 o deithiau lorïau i'r safle ac oddi yno – sy'n gyfwerth â swm yr agregau (2,200 metr ciwbig) y byddai wedi bod yn rhaid eu cludo i'r safle pe na bai'r creigiau wedi'u malu a'u haildddefnyddio.
- 4.13 Roedd y caniatâd angenrheidiol wedi dod i law ar gyfer lleoli a gweithredu'r malwr.
- 4.14 Mae protocol ar waith ar gyfer rheoli symud deunyddiau. Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n rheoli hyn. Mae'r gwaith papur ar gyfer ymdrin â tharmac ac ailgylchu creigiau i gyd fel y dylai fod, ac mae'r gwaith wedi'i archwilio a'i gymeradwyo gan CNC.
- 4.15 Mae CNC yn ffafrio aildddefnyddio ac ailgylchu deunydd lle bynnag y bo modd. Mae wyth mil o fetrau ciwbig o uwchbridd a gafodd ei symud oddi yno yn rhan o brosiect y fferm wynt wedi'u haildddefnyddio'n ddeunydd tirlunio gan Dawnus ar y cynllun lliniaru llifogydd cyfagos.
- 4.16 Dywedodd DO fod yr awdurdod lleol yn gefnogol iawn i'r dull hwn oherwydd bod angen llai o ddanfoniadau mewn lorïau yn ei sgil.
- 4.17 Atgoffodd y Cadeirydd aelodau'r Grŵp fod gan Dawnus enw da am arfer da wrth reoli deunyddiau, ac oherwydd bod y rheolau a'r targedau ailgylchu mor llym, ei bod er budd y datblygwr a'r contractwr i aildddefnyddio cymaint â phosib.
- 4.18 Bydd Innogy yn ymateb yn ffurfiol i'r pwyntiau a godwyd yng ngohebiaeth y preswylwr ac yn ei anfon at KG.

5. Y Diweddaraf gan Tim James

- 5.1 Cwblhawyd y gwaith galluogi ym mis Tachwedd ac mae Dawnus yn symud o'r safle. Diolchodd TJ i Dawnus am eu cyfraniad i'r prosiect a diolchodd i NC am ddod i gyfarfodydd y Grŵp.
- 5.2 Roedd arbrawf wedi'i gynnal i 'brofi' y llwybr mynediad gyda llwyth ffug o Heol Bolgoed i fynedfa safle'r fferm wynt. Aeth yr arbrawf yn dda iawn, ac roedd pawb, gan gynnwys Senvion, Heddlu De Cymru, a'r cludwr, yn falch ac yn fodlon â'r llwybr.
- 5.3 Roedd Heddlu De Cymru wedi defnyddio'r arbrawf i asesu'r gofynion tebygol o ran hebrwng a phatrwm y confoi.
- 5.4 Mae Farrans, y contractwr sifil, wedi dechrau symud i'r safle.
- 5.5 Mae'r gwaith ffensio wedi cychwyn ac mae contractwr ffensio lleol yn cael ei ddefnyddio i wneud y gwaith. Mae'r contractwr ffensio'n lleol ac yn berchen ar hawliau ar y tir comin.
- 5.6 Estynnwyd croeso ffurfiol i Jenny Turner o Farrans.
- 5.7 Dros yr wythnosau nesaf, bydd Farrans yn: gorffen y gwaith ffensio; dod â pheirianwaith i'r safle; adeiladu pantiau ar fin y trac yn rhan o'r cynllun SUDS (System Draenio Trefol Cynaliadwy); cychwyn ar y trac mynediad.
- 5.8 Bydd cerrig yn dechrau cael eu danfon cyn hir. Bydd y cerrig yn rhai lleol.
- 5.9 Y bwriad yw gosod hyd at 85 metr o'r trac bob dydd, ac er mwyn gwneud hynny bydd angen dod â 1,000 o dunelli o gerrig i'r safle bob dydd, sy'n gyfwerth â thua 50 o deithiau lorïau, i'r naill gyfeiriad a'r llall. Uchafswm yw hynny, a bydd symudiadau'r lorïau wedi'u gwasgaru drwy gydol y diwrnod gwaith. Mae'n debygol y bydd y gwaith yn para tua 5 mis, a bydd y gwaith yn cael ei wneud o ddydd Llun i ddydd Gwener o 7.30am-7pm; a 7am-2 pm ar ddydd Sadwrn. Ni fydd gwaith ar y safle ar ddydd Sul ac ar Wyliau Banc a bydd y safle'n cau am ddeuddydd dros y Nadolig. Bydd y lorïau'n dilyn y llwybr traffig penodedig h.y. yn teithio drwy Benllergaer a Phontlliw.
- 5.10 Ar y cychwyn gosodir offer golchi olwynion – tancer dŵr a golchwr pwysedd – ger mynedfa'r safle (Blaen Gerdinen), yn unol â'r Datganiad Rheoli Adeiladu. Pan fydd rhan gyntaf y trac wedi hadeiladu, bydd adnodd sychlanhau'n cael ei osod. Mae'r Datganiad Rheoli'n nodi bod yn rhaid gosod adnodd sychlanhau, oherwydd yr amgylchedd lleol sensitif.
- 5.11 Bydd y cerrig yn rhai lleol a bydd y lorïau'n rhai a yrrir gan eu perchnogion, ac o'r herwydd yn lleol gan mwyaf. Cydnabyddir y bydd angen i Farrans fod yn hynod wyladwrus er mwyn sicrhau nad yw'r lorïau'n teithio drwy Bontarddulais.
- 5.12 Dywedodd TJ fod cerbydau'n defnyddio'r llwybr rhwng Heol y Barna a Heol Bolgoed. Nid yw hon yn ffordd gyhoeddus. Mae clwydi bellach wedi'u gosod a chyn hir bydd Farrans yn cyflogi rhywun i oruchwylio hyn. Mae arwyddion yn cael eu codi hefyd i ddangos bod y llwybr yn eiddo preifat. Gofynnodd TJ i'r cynrychiolwyr cymunedol atgoffa'u cymunedau nad llwybr at ddefnydd y cyhoedd yw'r llwybr rhwng Heol Bolgoed a Heol y Barna.

5.13 Roedd TJ am nodi'n glir nad oedd y symiau mawr o dracffordd alwminiwm a oedd yn cael eu cadw yn y gilfan ger mynedfa Heol Bolgoed y safle yn gysylltiedig â gwaith Innogy, fel yr oedd rhai wedi camgymryd. Mae'n gysylltiedig â gwaith ar fast O2 ger Pontarddulais.

5.14 Mae si ar led fod car wedi mynd yn sownd yn y tarmac sy'n cael ei osod ger Pum Heol. Nid yw'r contractwr nac Innogy wedi cael adroddiadau i'r perwyl hwnnw, ac ardaloedd gweithio yw'r ardaloedd lle mae'r tarmac yn cael ei osod, lle nad yw ceir yn cael mynd.

5.15 Bydd y llwybr cyfan ar gyfer llwythi anarferol, o Borthladd Abertawe i safle'r fferm wynt, yn cael ei dreialu'r wythnos nesaf. Mae'n anodd rhoi cyfnod hir o rybudd ymlaen llaw ar gyfer y cynllun treialu, oherwydd bod Innogy yn ddibynnol ar slotiau Heddlu De Cymru. Gall Innogy roi 72 awr o rybudd. Yn ystod yr arbrawf o Heol Bolgoed i'r safle, cafodd yr oedi a achoswyd i'r traffig ei fonitro. Gwelwyd bod y traffig wedi clirio'n gyflym iawn. Bydd y llwythi anarferol yn teithio y tu allan i'r oriau brig. Er mwyn cludo'r llwythi anarferol, bydd angen symud yr ynys hollti ym Mhenllergaer – dyma'r unig newid y bydd angen ei wneud i'r briffordd a rhoddir yr ynys yn ôl yn ei lle ar ôl i'r danfoniadau i'r safle ddod i ben.

5.16 Gofynnodd aelodau'r Grŵp am gymaint o wybodaeth â phosib cyn i'r llwythi anarferol gyrraedd. Dywedodd JC fod gwersi wedi'u dysgu o brosiectau eraill Innogy ac o'r arbrawf byr cychwynnol ac y byddai symudiadau llwythi anarferol yn cael eu trafod ymlaen llaw â'r Grŵp. Nid yw'n bosib rhoi amser pendant ar gyfer y danfoniadau, ond bydd modd rhoi bras amcan. Gellid sefydlu gwasanaeth negeseuon testun i'r rhai sydd am gael gwybod pryd y mae'r llwythi anarferol i fod i gael eu cludo.

6. Y diweddaraf gan Jenny Cowley

6.1 Cyfeiriodd JC at yr ohebiaeth hirfaith oddi wrth breswylwr lleol a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf. Roedd y preswylwr lleol wedi cysylltu eto.

6.2 Roedd Innogy wedi derbyn ymholiad ar Twitter ynghylch yr adnodd golchi olwynion.

6.3 Mae adran gynllunio'r awdurdod lleol (DO ac EN) hefyd wedi derbyn gohebiaeth ynghylch materion A106, sef mater arall a godwyd yn y cyfarfod diwethaf ac y cafwyd trafodaeth hir arno. Eglurodd TJ unwaith eto fod cyfrifo'r effaith economaidd o fewn radiws 100km yn fesuriad safonol a ddefnyddir gan Farrans ac eraill i fesur buddion buddsoddi lleol sy'n deillio o'r gwaith. Pwysleisiodd DO fod y diffiniadau o 'lleol' yn y cytundeb A106 yn cyfeirio at Gymru, a chynnyrch a gwasanaethau Cymreig. (PG: Cytunodd DO i anfon copi o'r A106 i KG).

7. Unrhyw Fater Arall

7.1 Nid yw'r asesiad o dirgryniadau wedi'i gwblhau eto. Mae dau eiddo wedi codi pryderon gydag Innogy. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro yn ystod yr wythnosau cyntaf pan fydd cerrig yn cael eu cludo i'r safle. Hyd yma, nid yw'r gwaith i fonitro dirgryniadau wedi datgelu dim sy'n peri pryder, ac mae'r gwerthoedd dirgrynu uchaf gryn dipyn yn llai na'r hyn a fyddai'n achosi difrod cosmetig. Mae Innogy wedi cwrdd â phreswylwr y ddau eiddo a bydd yn rhoi adroddiad ffurfiol iddynt ar ôl cwblhau'r gwaith monitro. Innogy sy'n berchen ar yr eiddo sydd agosaf at fynedfa'r safle, ac mae'n monitro effaith y dirgryniadau ar yr eiddo hwnnw. Mae Dawnus wedi monitro'r dirgryniadau ac mae Innogy wedi comisiynu ail fonitor dirgryniadau annibynnol.

7.2 Dywedodd y Cadeirydd wrth yr aelodau ei fod wedi'i benodi i gynnal ymgynghoriad ynghylch y cyllid mantais gymunedol gyda chymuned Mawr. Pan gynhaliwyd yr ymgynghoriad gwreiddiol yn 2012, ni chafwyd digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus ym Mawr, ac felly mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau y gall Mawr gyfrannu at y broses yn yr un ffordd â'r cynghorau cymuned eraill. Roedd CC Mawr wedi cymeradwyo penodi Philip McDonnell i wneud y gwaith hwn.

8. Cyfarfod nesaf:

Cynhelir y cyfarfod nesaf am 6pm ddydd Iau 18 Ionawr yng Nghanolfan y Bont, Pontarddulais.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.10pm.